**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**8 RHAGFYR 2020**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod mynychu o bell ddydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Robert Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Ray Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams a David Wisinger

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Prif Gyfrifydd, Cyfrifydd y Gronfa Bensiwn, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, David Cox, Kevin Hughes, Dennis Hutchinson, Mike Lowe, David Williams ac Arnold Woolley.

## 31. CYFLWYNIADAU

Gwahoddodd y Cadeirydd y canlynol i'r cyfarfod:

Yn cynrychioli Cyngor Sir y Fflint:
Neil Ayling, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Susie Lunt, Uwch Reolwr – Gwasanaethau Oedolion a Dawn Holt, Rheolwr Comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn cynrychioli GOGDdC
Claire Sullivan, Elaine Jones, Claire Challinor a Lesley Parry.

Eglurodd fod yr eitem hon i ddathlu Anrhydeddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol lle enillodd GOGDdC y wobr am ei brosiect 'Pontio'r Bwlch' a oedd yn galluogi gofalwyr di-dâl i gael mynediad i ddatrysiadau seibiant dibynadwy a hyblyg. Roedd yn galluogi gofalwyr i gymryd egwyl addas i'w hanghenion a gallai gefnogi angen ar frys am seibiant.

Diolchodd Claire Sullivan i'r Cadeirydd am y gwahoddiad i'r cyfarfod a dywedodd ei bod wrth ei bodd fod GOGDdC wedi ennill yr anrhydedd. Dechreuodd y prosiect yn 2012 ac roedd yn cael ei ariannu gan Gyngor Sir y Fflint. Nid oedd erioed wedi dychmygu y byddai'r cynllun yn dod mor hyblyg ac addasadwy, gyda miloedd o ofalwyr di-dâl yn cael seibiant pan oeddent angen hynny. Pan ymwelodd y beirniaid â GOGDdC fe aethant ati i siarad â 15 o ofalwyr a siaradodd yn angerddol am y gwasanaeth a gâi ei gynnig. Diolchodd i'r tîm am eu gwaith caled parhaus.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) mai GOGDdC oedd y gwasanaeth i ofalwyr gorau yng Nghymru a gwnaeth sylw ar y bartneriaeth ragorol oedd ganddynt gyda'r Cyngor.

Mynegodd y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, ei diolch i GOGDdC am y gefnogaeth yr oeddent yn ei ddarparu i'r gofalwyr a llongyfarchodd hwy am ennill y wobr.

<u>Yn cynrychioli HFT</u>
Jordan Smith ac Andrew Horner, ynghyd â'r defnyddwyr gwasanaeth Jessica Butler, Tamara Hijazi, Kevin Roberts a Ryan Williams.

Croesawodd y Cadeirydd HFT i ddathlu fod Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint, wedi cyrraedd y rownd derfynol am ei brosiect yn darparu gweithgareddau dydd i dros 250 o bobl gydag anableddau dysgu. Roedd y prosiect yn helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, datblygu annibyniaeth a gwneud cysylltiadau cymdeithasol a chyfeillgarwch. Roedd hefyd yn gweithio gyda rhaglen byw â chymorth i helpu'r bobl roedd yn eu cefnogi, eu rhieni a gofalwyr i gael mynediad i wasanaethau seibiant.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod y Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth gyda HFT am dair blynedd a bod gwasanaethau arweiniol wedi eu datblygu fel Hwb Cyfle. Fe wnaeth sylw ar y cyfleoedd gwaith a Phrosiect Search a arweiniodd at chwe unigolyn ifanc yn cael gwaith am dâl. Llongyfarchodd y tîm.

Hefyd llongyfarchodd y Cynghorydd Christine Jones HFT am y gefnogaeth a'r gofal yr oeddent yn ei roi i'r gwasanaeth a'r cyfleoedd gwaith roeddent yn ei ddarparu.

Diolchodd Jordan Smith i'r Cadeirydd am y gwahoddiad i'r cyfarfod. Talodd deyrnged i'r Cyngor am eu buddsoddiad yn Hwb Cyfle a hefyd fe wnaeth sylw ar ganlyniadau Prosiect Search a olygodd fod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyflogaeth am dâl.

Llongyfarchodd Paul Cunningham GOGDdC a HFT.

**32. <u>COFNODION</u>**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2020.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**33. DATGAN CYSYLLTIAD**

Y Cynghorwyr: Fe ddatganodd Axworthy, Banks, Bibby, Brown, Butler, Collett, Cunningham, Jean Davies, Davies-Cooke, Dunbar, Dunbobbin, Ellis, Gay, David Healey, Gladys Healey, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Mackie, McGuill, Mullin, Palmer, Peers, Michelle Perfect, Phillips, Rush, Paul Shotton, Smith, White a Wisinger gysylltiad personol yn eitem rhif 8 ar y rhaglen – Rhaglen Gyfalaf 2021/22 – 2023/24 gan eu bod yn llywodraethwyr ysgol.

**34. CYFATHREBIADAU CADEIRYDD**

Fe wnaeth y Cadeirydd sylw ar sut yr oedd bywydau wedi newid cymaint ers mis Mawrth. Roedd heddiw yn ddiwrnod pwysig gan fod y brechlyn cyntaf yn erbyn Covid-19 wedi ei roi i wraig 90 mlwydd oed yn Coventry.

**35. DEISEBAU**

Ni chyflwynwyd dim.

**36. STRATEGAETH GYFALAF 2021/22 – 2023/24**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i Strategaeth Gyfalaf y Cyngor. Roedd yn egluro'r gofyniad ar gyfer y Strategaeth, ei brif amcanion a chynnwys pob un o'i adrannau.

O dan y Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus), roedd gofyn i awdurdodau osod ystod o Ddangosyddion Darbodus. Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys manylion Dangosyddion Darbodus y Cyngor ar gyfer 2021/22 – 2023/24.

Prif amcanion y Strategaeth oedd i egluro'r modd yr oedd y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei datblygu a'i hariannu, yr effaith posibl yr oedd yn ei gael ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'r modd yr oedd yn ymwneud â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Roedd y Strategaeth yn ddogfen drosfwaol ac roedd yn cyfeirio at ddogfennau eraill fel y Rhaglen Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Darparu Isafswm Refeniw. Roedd y Strategaeth wedi ei rhannu yn nifer o adrannau a oedd yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Cabinet ac nid oedd unrhyw faterion wedi eu codi.

Cynigiodd y Cynghorydd Banks yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Roberts.

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r holl swyddogion a fu'n ymwneud â hyn am sicrhau fod y rhaglenni yn parhau i gael eu hariannu a bod hylifedd yn parhau yn dda.

Ar dudalen 27, gofynnodd y Cynghorydd Peers a oedd meini prawf fforddiadwyedd wedi eu gosod o ran y cyllid gan fod Tabl 2 yn dangos cynnydd o 500% mewn grantiau/cyfraniadau/benthyciadau penodol. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod yna gynnydd sylweddol yn 2023/24 o ganlyniad i raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Roedd cynlluniau ar gyfer y dyfodol wedi eu gosod yn y cyfrifiadau hyn a hefyd wedi eu gosod yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones a oedd yna unrhyw risg i'r Cyngor o ran lefel y ddyled fel yr amlinellir yn nhabl 5 yr atodiad. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod lefel y ddyled yn cael ei monitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn i sicrhau fod y ddyled yn is na'r gofyniad cyfalaf. Roedd rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod cyfyngiad wedi ei awdurdodi ar gyfer dyled allanol bob blwyddyn a chadw hyn dan adolygiad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y Strategaeth Gyfalaf yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod y canlynol yn cael eu cymeradwyo:

- Y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/22 - 2023/24 fel y nodir yn Nhablau 1 a 4-7, gan gynnwys y rhai hynny, o'r Strategaeth Gyfalaf; a
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i greu symudiadau rhwng y cyfyngiadau y cytunwyd arnynt ar wahân o fewn y cyfyngiad a awdurdodwyd ar gyfer y ddyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol (Tabl 6 o'r Strategaeth Gyfalaf).

## 37. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 - 2023/24

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad a oedd yn cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer cyfnod 2021/22 – 2023/24 i'w gymeradwyo, wedi ei gefnogi gan gyflwyniad PowerPoint.

Roedd Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn ymdrin â buddsoddiad mewn asedau ar gyfer yr hirdymor i alluogi darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n rhoi gwerth am arian. Roedd yr asedau yn cynnwys adeiladau (fel ysgolion a chartrefi gofal), seilwaith (fel priffyrdd, rhwydweithiau TG a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff) ac asedau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor (fel gwaith i wella ac addasu cartrefi'r sector preifat). Roedd y buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig o fewn yr adroddiad wedi eu halinio'n agos at gynlluniau busnes gwasanaeth portffolios a Chynllun y Cyngor.

Roedd gan y Cyngor adnoddau cyfalaf cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru (LlC) i gefnogi blaenoriaethau, anghenion a dyledion y Cyngor. Fodd bynnag, roedd ganddo'r pwerau i ariannu cynlluniau Cyfalaf drwy fenthyca - dros dro oedd hyn ac yn y pen draw roedd y gost ac ad-dalu unrhyw fenthyca yn cael ei godi ar gyllideb refeniw'r Cyngor. Roedd cynlluniau a gâi eu hariannu gan fenthyca yn cael eu hystyried yn ofalus o ganlyniad i'r effeithiau hirdymor ar gyllideb refeniw'r Cyngor.

Rhannwyd Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor yn dair rhan:

1. Statudol / Rheoleiddio - dyraniadau i gynnwys gwaith rheoleiddio a statudol.
2. Asedau Cadwedig - dyraniadau i ariannu gwaith ar seilwaith sydd ei angen i sicrhau parhad gwasanaeth a busnes.
3. Buddsoddiad - dyraniadau i ariannu gwaith.

Rhoddodd y Prif Swyddog fanylion pob un o'r tablau o fewn yr adroddiad a oedd yn rhan o'r cyflwyniad, ac a gâi eu cefnogi gan eglurhad yn yr adroddiad ar bob tabl.

Rhoddwyd manylion am gynlluniau posibl yn y dyfodol, a chafwyd manylion am y rhain yn yr adroddiad hefyd.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Roberts a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Thomas.

Mynegodd y Cynghorydd Roberts ei ddiolch i'r Prif Swyddog a'i dîm am y gwaith a wnaed i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf. Dywedodd fod y rhaglen yn dangos dyfnder y cyfranogiad mewn ysgolion, cartrefi gofal, seilwaith a rhwydweithiau TG. Fe wnaeth sylw ar y canolbwynt i'r digartref, Hwb Cyfle, Ysgol Glan yr Afon, Castell Alun, y cynlluniau ar gyfer ardaloedd Saltney a Brychdyn a Mynydd Isa ar gyfer ysgolion. Hefyd fe wnaeth sylw ar Marleyfield, y cyfleuster archifau ar y cyd ac ailddatblygu Theatr Clwyd.

Cytunodd y Cynghorydd Thomas gyda sylwadau'r Cynghorydd Roberts a diolchodd i swyddogion am dynnu cyllid cyfalaf drwy'r llwybrau amrywiol a oedd ar gael iddynt. Eglurodd fod y Cyngor yn aros i glywed y canlyniad ar y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer cynlluniau o dan y cyllid Ysgogi Economaidd.

Cytunodd y Cynghorydd Dunbar gyda'r sylwadau hefyd a mynegodd ei ddiolch am y cyllid ar gyfer ardaloedd chwarae. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am y gwaith a wnaed ar y pontydd ym Mharc Gwepra. Gofynnodd beth oedd y cynllun tymor hirach ar gyfer Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy. Eglurodd y Prif Weithredwr fod eglurhad cychwynnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn ag am ba hyd roeddent angen yr adeilad fel yr ysbyty maes dros dro. Credwyd y gellid datgomisiynu'r ysbyty yn nhrydydd chwarter 2021. Yn dilyn cau'r ysbyty fe fyddai'r Ganolfan Hamdden yn troi'n ôl i'r hyn ydoedd cyn hynny. Fodd bynnag, roedd yr adeilad yn dod at ddiwedd ei oes ac roedd ymgynghorwyr wedi eu comisiynu i nodi sut y gallai adeilad newydd fod, gyda mwy o bwyslais ar gyfleusterau iechyd a lles a gwasanaethau cyhoeddus.

Diolchodd y Cynghorydd Jones i'r Prif Swyddog am yr adroddiad. Ar dudalen 36, gofynnodd a oedd unrhyw amheuaeth a fyddai'r grant rhwng £0.700m a £0.900m yn cael ei dderbyn. Dywedodd y Prif Swyddog ei fod yn optimistig fod y grantiau o gwmpas y ffigyrau hynny a nodwyd o fewn yr adroddiad ar y ffordd. Gofynnodd y Cynghorydd Jones hefyd beth fyddai'r Cyngor yn ei wneud pe na bai derbyniadau cyfalaf a ragwelwyd yn dod i'r golwg neu os y byddent yn wynebu oedi. Eglurodd y Prif Swyddog y byddai cynlluniau un ai'n cael eu hail gyflwyno'n raddol, eu gohirio neu y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio benthyca darbodus, os yn briodol. Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Jones ar gyfleusterau chwaraeon a effeithiwyd ar draws y sir ac yn y

cyd-destun hwn Clwb Pêl-droed Tref Bwcle, cytunodd y Prif Swyddog i gyfarfod gyda'r Cynghorydd Jones, gan gadw pellter cymdeithasol, i drafod ymhellach.

Diolchodd y Cynghorydd Gladys Healey hefyd i'r Prif Swyddog am yr adroddiad a chroesawodd y cyllid oedd ar gael i Ysgol Uwchradd Castell Alun, gan gynnwys y gwaith i'w wneud ar y toiledau gyda chyllid o gytundeb Adran 106 diweddar. Fe wnaeth sylw ar y cae pob tywydd yr oedd angen un newydd yn ei le hefyd. Dywedodd y Prif Swyddog ei fod yn ymwybodol o hynny ac y byddai unrhyw gyfleoedd ariannu yn cael eu hystyried pan fyddent ar gael.

Fe wnaeth y Cynghorydd Peers sylw ar y gwaith ar adeiladau ysgolion a'r ôl-groniad o ran gwaith uwchraddio toiledau a dywedodd pe byddai £0.100m y flwyddyn yn cael ei wario ar y gwaith uwchraddio, byddai'n cymryd 15 mlynedd i wneud y gwaith gan yr amcangyfrifwyd y byddai'n costio tua £1.5m Eglurodd y Prif Swyddog na fyddai'n cymryd 15 mlynedd i gwblhau'r gwaith o adnewyddu toiledau gan yr ymdrinnir ag ychydig o'r gwaith hwn drwy raglen ysgolion a adeiledir o'r newydd y Cyngor a phrosiectau adnewyddu ehangach eraill o fewn ysgolion.

O ran ardaloedd chwarae, gofynnodd y Cynghorydd Peers a oedd gan y Cyngor unrhyw symiau gohiriedig i gynorthwyo gyda chael offer chwarae newydd yn lle'r offer presennol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y strategaeth chwarae yn cael ei hadolygu gydag Aura a bod y Cyngor hefyd eisiau adolygu'r polisi cynllunio ar ardaloedd chwarae.

O ran y cyfleuster archifau ar y cyd, gofynnodd y Cynghorydd Peers a fyddai adeilad presennol yr archifdy yn cael ei werthu unwaith y byddai'r cyfleuster newydd ar agor, ac a oedd y cyfleuster newydd i'w ariannu ar sail 50/50 gyda Sir Dinbych a Sir y Fflint. Eglurodd y Prif Swyddog fod gwaith cynllunio'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar yr adeilad presennol. Y dyraniad ariannol (CSDd a CSFf) gyda'r prif gyfraniadau yn dod gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

Fe wnaeth y Cynghorydd Peers sylw ar y gwaith adeiladu a oedd wedi digwydd ym Mhenyffordd, gydag Ysgol Gynradd newydd Penyffordd yn creu nifer cynyddol o ddisgyblion. O ran y cyfraniadau 106 a fyddai'n cael eu defnyddio i wrthbwyso rhai o'r costau ar gyfer yr estyniad yr oedd ei angen ar yr ysgol, gofynnodd a oedd angen ailedrych ar feini prawf cyfraniad gan ddatblygwyr. Eglurodd y Prif Swyddog fod hyn yn gwestiwn i'r adran gynllunio.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers a oedd yna unrhyw fwriad i adolygu ystadau diwydiannol. Roedd yn ymwybodol o rywun a oedd eisiau uned ddiwydiannol a dywedwyd wrtho nad oedd unrhyw rai ar gael, ac a oedd yna unrhyw le i gynyddu cyflenwad yr unedau. Eglurodd y Prif Swyddog fod ystadau diwydiannol wedi eu meddiannu i raddau helaeth ond y cydnabyddir fod angen ychydig o fuddsoddiad arnynt.

Croesawodd stori lwyddiannus Marleyfield a oedd ar gyfer yr holl breswylwyr yn Sir y Fflint a hefyd croesawodd y gwelliannau i'r cyfleuster prosesu ailgylchu sydd wedi ei leoli ym Mwcle.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Prif Swyddog am y cyflwyniad a'r holl swyddogion a fu'n ymwneud â dod â'r Rhaglen Gyfalaf ynghyd. Fe geisiodd eglurder ar yr amserlenni o ran y cynlluniau ar gyfer Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn y dyfodol a sut y rhoddir gwybod i Aelodau am hynny. Dywedodd fod yna bryder yn lleol ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer y Ganolfan Hamdden yn y dyfodol gan ei fod yn gyfleuster yr oedd llawer yn hoff ohono. Roedd yn ymwybodol mai canol Mawrth oedd y dyddiad cau o ran tendrau ar gyfer y cynlluniau arfaethedig yn ymwneud â'r Ganolfan Hamdden yn y dyfodol. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r cynigion o ran y ffi yn cael eu hadolygu ac y byddai gwaith yn cael ei wneud i'w gwerthuso o fewn yr wythnosau nesaf. Byddai manylion mewn ymateb i'r briff wedyn yn cael eu datblygu gan yr ymgynghorwyr technegol a benodir a byddant yn cael eu rhannu pan fydd holl agweddau'r briff wedi eu bodloni.

Croesawodd y Cynghorydd Bithell y Rhaglen Gyfalaf a oedd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ac anghenion. Croesawodd yn benodol y buddsoddiad ar gyfer Cadwraeth Adeilad Hanesyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ron Davies, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r llawr rhew yn cael ei adfer yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy unwaith yr oedd wedi ei ddatgomisiynu fel ysbyty.

Dywedodd y Cynghorydd Sharps fod ymholiad wedi ei wneud gan gwmni ddwy flynedd yn flaenorol a fyddai'n rhyddhau derbyniad cyfalaf ar gyfer y Cyngor ond nad oedd hynny wedi ei ddilyn. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n edrych ar y mater.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y dyraniadau a'r cynlluniau yn Nhabl 3 ar gyfer adrannau Statudol/Rheoleiddio a'r adrannau Asedau a Gedwir o Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2021/22 – 2023/24 yn cael eu cymeradwyo:

(b) Fod y cynlluniau a gaiff eu cynnwys yn Nhabl 4 ar gyfer adran Fuddsoddiad Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2021/22 – 2023/24 yn cael eu cymeradwyo;

(c) Y nodir fod y diffyg o ran ariannu'r cynlluniau yn 2021/22 yn Nhabl 5 ar y pwynt hwn yn y broses gymeradwyo yn caniatáu hyblygrwydd. Fe fydd dewisiadau yn cynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf, grantiau amgen (os oes rhai ar gael), benthyca darbodus neu ail gyflwyno cynlluniau yn raddol yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn ystod 2021/22 a'u cynnwys yn adroddiadau'r Rhaglen Gyfalaf yn y dyfodol; a

(d) Bod y cynlluniau a gaiff eu cynnwys yn Nhabl 6 yn cael eu cymeradwyo ar gyfer yr adran o Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor a ariennir yn benodol a fydd yn cael ei ariannu'n rhannol drwy fenthyca.

## 38. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ac eglurodd fod yna angen i adolygu cyfrifiadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor wedi i'r tri

aelod a oedd yn weddill o Grŵp Annibynnol Sir y Fflint ymuno â Grŵp y Gynghrair Annibynnol. Roedd yna un aelod amhleidiol o'r Cyngor.

Roedd grwpiau gwleidyddol y Cyngor a'r nifer o Aelodau ar bob un fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Llafur | 34 |
| Y Gynghrair Annibynnol | 16 |
| Ceidwadwyr | 6 |
| Y Democratiaid Rhyddfrydol | 6 |
| Annibynnol Newydd | 4 |
| Annibynnol | 3 |
| Aelod amhleidiol | 1 |

Dyrannwyd seddi pwyllgor i grwpiau gwleidyddol (cyn belled ag yr oedd hynny'n ymarferol) yn yr un gyfran ag yr oedd gan y grwpiau hynny o ran cyfanswm aelodau'r Cyngor Sir. Amlinellwyd manylion yr hyn yr oedd rhaid ei gydnabod wrth ddyrannu'r seddi ar y Pwyllgorau yn yr adroddiad.

Roedd cyfrifiad y cydbwysedd gwleidyddol wedi ei atodi i'r adroddiad. Roedd yn un dyraniad cyfreithlon posibl o seddi a gall dyraniadau cyfreithlon posibl eraill fodoli.

Fe allai seddi a gaiff eu dal yn ffurfiol gan Grŵp Annibynnol Sir y Fflint gael eu trosglwyddo yn eu cyfanrwydd heb i unrhyw grŵp gwleidyddol arall gael eu heffeithio. Diolchodd i'r Cynghorydd Peers am gytuno i ystyried yr adroddiad hwn yn y cyfarfod hwn yn hytrach na'r cyfarfod ym mis Tachwedd.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Roberts a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Peers.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y seddi ar y Pwyllgorau yn cael eu dyrannu yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel y dangosir yn Atodiad A; a

(b) Bod unrhyw newidiadau i'r rhai a enwebir ar gyfer lleoedd ar Bwyllgor yn cael eu datgan i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl.

## 39. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2019/20 a oedd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Cyngor i fodloni adroddiad arfer gorau CIPFA sef 'Pwyllgorau Archwilio - Canllaw Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol 2018', a'r gofyniad i Bwyllgorau Archwilio gael eu dal i gyfrif gan y Cyngor am y gwaith y maent wedi ei wneud.

Roedd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio wedi ei gynllunio i roi sicrwydd i'r Cyngor o ran dal y Pwyllgor i gyfrif. Yn benodol:

1. **Cefnogi atebolrwydd y Cyngor i'r cyhoedd a budd-ddeiliaid**

- Cafodd pob cyfarfod gan y Pwyllgor Archwilio ei gynnal yn gyhoeddus gyda holl bapurau'r Pwyllgor ar gael ar wefan y Cyngor.

2. **Cefnogi atebolrwydd o fewn y Cyngor**
   - Drwy adolygu'r adroddiadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio, mae'r Pwyllgor yn dal y rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r argymhellion a chynlluniau gweithredu i gyfrif. Yn ychwanegol at hynny, fe oruchwyliodd y Pwyllgor y broses ar gyfer gwerthuso a gwella llywodraethu, risg, rheoli a rheolaeth ariannol.
3. **Dal y Pwyllgor Archwilio i gyfrif**
   - Mae'r Pwyllgor wedi gwireddu'r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno ac mae wedi mabwysiadu'r arfer orau a argymhellwyd.
   - Roedd Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio wedi asesu eu hanghenion datblygu eu hunain ac wedi manteisio ar y cyfle i fynychu sesiynau briffio a hyfforddiant;
   - Roedd y Pwyllgor wedi asesu ei effeithiolrwydd ei hun, wedi datblygu cynllun gweithredu ac wedi monitro cynnydd; ac
   - Roedd y Pwyllgor wedi dangos eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar welliant llywodraethu, risg, rheoli a rheolaeth ariannol o fewn y Cyngor.

Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Ionawr yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i Bwyllgorau Archwilio yng Nghymru.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad hwn gan y Cynghorydd Chris Dolphin ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Paul Johnson.

Rhoddodd y Cynghorydd Chris Dolphin drosolwg o'r Adroddiad Blynyddol a chadarnhaodd nad oedd yna unrhyw feysydd o bryder i'w hadrodd i'r Cyngor. Diolchodd y Cynghorydd Paul Johnson i'r Cynghorydd Dolphin am gadeirio'r Pwyllgor ac am ei natur drylwyr.

Hefyd mynegodd y Cynghorydd Roberts ei ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, yr Aelodau a hefyd yr aelodau cyfetholedig am eu cyfraniadau gwerthfawr.

**PENDERFYNWYD:**

Fod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2019/20 yn cael ei gymeradwyo.

## 40. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2019/20

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ac eglurodd fod Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu yn cael ei ddrafftio yn flynyddol gan dîm y swyddog, mewn ymgynghoriad gyda Chadeiryddion Pwyllgorau perthnasol. Roedd y drafft wedyn yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Cyfansoddiad a'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cael sylwadau Aelodau cyn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer cael ei gymeradwyo'n ffurfiol.

Mae’r Adroddiad Blynyddol yn rhoi sicrwydd i’r Cyngor fod y swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yn cyflawni ei rôl gyfansoddiadol.

Yn dilyn argymhelliad ym Mhwyllgor y Cyfansoddiad a’r Gwasanaethau Democrataidd, cytunwyd y gellid tynnu’r geiriad diangen yn ymwneud â’r rhaglen gwaith i’r dyfodol.

Roedd angen diwygio gan fod y Cynghorydd Paul Johnson wedi ei restru fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn hytrach na’r Cynghorydd Cunningham. Hefyd roedd angen diwygiad pellach gan fod y Cynghorydd Dave Hughes wedi ei restru fel Aelod o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a oedd yn anghywir. Byddai’r diwygiadau’n cael eu gwneud cyn i fersiwn derfynol yr adroddiad gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Phillips ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Michelle Perfect.

Diolchodd y Cynghorydd Phillips i’r Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd talodd deyrnged i’r Cynghorydd Mackie a oedd wedi cadeirio’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol a oedd bellach wedi ei ddiddymu a hynny am dair blynedd. Cytunodd y Cynghorwyr Roberts a McGuill gyda sylwadau’r Cynghorydd Phillips.

**PENDERFYNWYD:**

Fod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2019/20 yn cael ei dderbyn.

## 41. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd dim.

## 42. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 43. RHYBUDD O GYNNIG

Ni dderbyniwyd dim.

## 44. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.25 p.m.)

……………………………………………

**Y Cadeirydd**